



Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan

Cynllun Strategol 2017-2020

Cyflwyniad

Ar Fwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan (GWASB) mae'r cyfrifoldeb statudol am ddarparu'r arweiniad strategol yn y rhanbarth mewn perthynas â diogelu dinasyddion a hybu eu llesiant, fel y nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a'r canllawiau sy'n cyd-fynd â hi, 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 1'.

Mae rhanbarth Gwent yn cynnwys Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Sefydlwyd y Bwrdd rhanbarthol ym mis Ionawr 2011, gan uno trefniadau Pwyllgor Amddiffyn Oedolion Ardal tri chyngor Blaenau Gwent, Torfaen a Sir Fynwy â rhai Caerffili a Chasnewydd. Daeth y bwrdd rhanbarthol hwn yn bartneriaeth arweiniol strategol ar gyfer diogelu ledled Gwent wrth i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 gael ei chyflwyno, gan sicrhau statws cydradd â Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru.

Mae'r aelodau fel a ganlyn:

AELODAU BWRDD DIOGELU OEDOLION GWENT GYFAN	
Keith Rutherford CBS Torfaen. Cadeirydd	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Lin Slater Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan Is-gadeirydd	Cyfarwyddwraig Cynorthwyol Nyrsio
Alyson Hoskins Gwasanaethau Cymdeithasol Blaenau Gwent	Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Christopher Bradley	Cadeirydd Rhwydwaith Diogelu Lleol Blaenau Gwent
Dave Street Jo Williams Gwasanaethau Cymdeithasol Caerffili	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
David Thomas	Cadeirydd Rhwydwaith Diogelu Lleol Caerffili
Julie Boothroyd Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Fynwy	Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Ian Bakewell	Cadeirydd Rhwydwaith Diogelu Lleol Sir Fynwy
Chris Humphrey Gwasanaethau Cymdeithasol Casnewydd	Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Mary Ryan	Cadeirydd Rhwydwaith Diogelu Lleol Casnewydd

AELODAU BWRDD DIOGELU OEDOLION GWENT GYFAN

Gill Pratlett Gwasanaethau Cymdeithasol Torfaen	Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Deborah Davies	Cadeirydd Rhwydwaith Diogelu Lleol Torfaen
Dr Nigel Farr Iechyd Cyhoeddus Cymru	Meddyg Dynodedig, Diogelu
Nikki Harvey Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru	Swyddog Arweiniol Diogelu
Leanne Brustad Heddlu Gwent	Ditectif Uwcharolygydd
Steve Bartlett Llywodraeth Cymru	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Kay Galvin Gwasanaeth Tân De Cymru	Pennaeth Addysg
Nic Davies Heather Nicholls Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru	Pennaeth Uned Gyflawni Leol Gwent Dirprwy Bennaeth Uned Gyflawni Leol Gwent
Giles Mason CEM Brynbuga / Prysgoed	Llywodraethwr
Diana Binding Cwmni Adsefydlu Cymunedol	Prif Weithredwraig Cynorthwyol
Rebecca Haycock Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	Cynghorydd Rhanbarthol
Scott Sanders Charter Housing a Derwen Cymru	Cyfarwyddwr
Peter Kennedy Cynghrair Wirfoddol Torfaen	Uwch Swyddog Gweithredol
Martin Featherstone Louise George Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent	Prif Swyddog Gweithredol Hwylusydd

AELODAU BWRDD DIOGELU OEDOLION GWENT GYFAN

Eleri Thomas Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu	Dirprwy Gomisiynydd
Mel Roach Kelly Richards a Steve Berry Uned Fusnes Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru	Rheolwr yr Uned Fusnes 2 Swyddog Datblygu

Diben y Bwrdd yw arwain, cydgyssylltu a sicrhau effeithiolrwydd ymarfer amlasiantaethol diogelu oedolion yn y rhanbarth.

Caiff y Bwrdd ei gyllido gan gyfraniadau oddi wrth yr asiantaethau partner statudol sydd wedi cytuno ar y fformiwla gyllido fel y'i nodir yn nogfen Llywodraeth Cymru, 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg', y canllawiau sy'n cyd-fynd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r cyllid hwn yn darparu adnoddau ar gyfer Uned Fusnes Diogelu Ranbarthol sy'n cynnwys rheolwr busnes, swyddogion datblygu a staff cymorth gweinyddol sy'n darparu cymorth i'r bwrdd plant a'r bwrdd oedolion a'r holl is-grwpiau. Nodir costau penodol y cymorth hwn isod.

Cyfanswm y costau	£355,000
Costau staff	£289,000
Costau cynnal o ddydd i ddydd	£26,000
Adolygiadau ymarfer plant	£4,000
Adolygiadau ymarfer oedolion	£4,000
Rhaglenni hyfforddiant	£22,000
Ymgysylltu / gwefannau a chyhoeddusrwydd / Digwyddiadau i weithwyr proffesiynol (gan gynnwys Wythnos Diogelu Genedlaethol)	£10, 000

Bydd ein Cynllun Blynyddol yn canolbwyntio ar well canlyniadau i oedolion. Mae hyn yn golygu deall beth yr ydym eisiau ei gyflawni, cynllunio sut y gwnawn hynny, gan gynnwys pwy fydd yn gwneud beth erbyn pryd ac, yn bwysig iawn, sut y byddwn yn gwybod ein bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl.

Ein gweledigaeth yw:

Ein bod yn amddiffyn oedolion ag anghenion gofal a chymorth sy'n cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso neu sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Rydym yn gweithio i atal rhagor o oedolion ar draws Gwent rhag wynebu risg o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso

Mae hyn yn golygu:

- Sicrhau y caiff oedolion eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, esgeuluso a chamfanteisio;
- Atal camdriniaeth, esgeuluso neu gamfanteisio; a
- Sicrhau bod pobl yn byw ac yn cael gofal mewn cartrefi a chymunedau diogel.
- Sicrhau bod llesiant oedolion sydd ag angen cymorth yn ganolog i bob lefel o ddarpariaeth gwasanaethau

Datganiad Cydraddoldeb

Bydd Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan yn mynd ati i weithio yn erbyn pob math o gamwahaniaethu at a chan ddinasyddion, ni waeth beth fo eu cefndir ac amgylchiadau unigol. Mae ein hymrwymiad o ran cydraddoldeb yn cynnwys tarddiad ethnig, rhyw, oed, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, crefydd a chred neu ddi-gred, defnydd o'r Gymraeg, iaith Arwyddion Prydain neu unrhyw iaith arall, cenedl, cyfrifoldeb am bobl ddibynol neu unrhyw reswm arall na all gael ei gyfiawnhau.

Yr hyn yr ydym wedi'i wneud hyd yma

Mae gan ardal Gwent hanes hir o gydweithio mewn perthynas ag amddiffyn oedolion agored i niwed, wrth i fwy o bwyslais gael ei roi ar gydweithredu; yn 2011 penderfynwyd uno'r 5 ardal Awdurdod Lleol i ffurfio un bwrdd diogelu oedolion. Mae'r gwaith a ddechreuwyd bryd hynny wedi cael ei gario ymlaen gan y Bwrdd, gan ddarparu llwyfan gadarn i ddechrau ohoni ar ei waith fel y bartneriaeth statudol arweiniol ar gyfer diogelu oedolion.

Dyma rai o brif gyflawniadau'r cydweithredu hwnnw:

- Ymgysylltu â dinasyddion mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau ymgysylltu a fforymau lleol a rhanbarthol i gasglu safbwyntiau pobl am y broses amddiffyn oedolion a'r bwrdd diogelu
- Defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gan y digwyddiadau hynny i lywio'r cynllun hwn
- Ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a datblygu amrywiaeth o daflenni gyda chyngor ac arweiniad
- Datblygu gwefannau sy'n darparu cyngor ac arweiniad i rieni a gofalwyr, y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol
- Cytuno ar 'frandio' a logo i'r Bwrdd er mwyn sicrhau y caiff proffil y Bwrdd ei godi ymysg dinasyddion yng Ngwent
- Cynhyrchu cylchlythyr chwarterol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i weithwyr proffesiynol am waith y Bwrdd
- Datblygu set ddata i feincnodi gweithgarwch Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA) ar draws y rhanbarth
- Monitro perfformiad y ddarpariaeth cartrefi gofal ar draws y rhanbarth, yn enwedig pan dynnir sylw at bryderon
- Datblygu grŵp i gynnal archwiliad ynghylch 'cwympiadau' mewn lleoliadau gofal preswyl
- Defnyddio'r wybodaeth o'r archwiliad hwnnw i gynhyrchu canllawiau ar arferion gorau i staff gofal
- Cynorthwyo â'r gwaith o gwmpasu menter Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol (MASH) ranbarthol
- Datblygu amrywiaeth o fodiwlau hyfforddiant o ymwybyddiaeth sylfaenol hyd at lefel uwch i alluogi gweithwyr proffesiynol i gadw oedolion sydd ag angen cymorth yn ddiogel mewn amrywiaeth o leoliadau
- Cydweithio'n agos â'r cynllun peilot rhanbarthol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i wella'r gallu i gael hyfforddiant a chyngor
- Cydweithio'n agosach â Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru i wella cysylltiadau ar draws maes cyfan diogelu
- Cymryd rhan yn Wythnos Diogelu Genedlaethol gydag amrywiaeth o ddigwyddiadau, gan ddiweddu gyda chynhadledd i weithwyr proffesiynol yn ymdrin â diogelu oedolion a phlant a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Cynnal adolygiad o'r ffordd yr ydym yn gweithio a phenderfynu ar y ffordd orau inni ddarparu dull mwy cyfannol o ddiogelu

- Rydym wedi adolygu a diwygio cylchoedd gorchwyl ac aelodaeth ein holl is-grwpiau ac wedi cyfuno gwaith rhai ohonynt, er mwyn sicrhau y defnyddir amser ac adnoddau asiantaethau yn y modd gorau

Yr hyn y byddwn yn ei wneud nesaf

Mae'r Bwrdd wedi nodi pedair blaenoriaeth strategol i ganolbwyntio arnynt dros y tair blynedd nesaf.

- **Targedu ymyriadau at oedolion sy'n wynebu risg o fathau penodol o gamdriniaeth**
- **Gwella Ansawdd Gofal ar draws y rhanbarth**
- **Sicrhau effeithiolrwydd parhaus ymarfer diogelu yn ystod cyfnod gweithredu a phontio i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**
- **Gwella effeithiolrwydd y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Oedolion**

Er mwyn sicrhau pontio di-dor o'n cynllun blaenorol rydym wedi cytuno i gario drosodd unrhyw waith nad yw wedi'i gwblhau eto. Bydd y blaenoriaethau cytunedig i'r flwyddyn gyntaf yn cynnwys unrhyw waith sydd heb ei orffen a sicrhau y caiff y camau gweithredu cyfatebol eu cwblhau cyn dechrau ar dasgau newydd.

Yn ein hail flwyddyn, byddwn yn ymdrin â ffrydiau gwaith sydd newydd eu nodi ac sy'n dod i'r amlwg, sy'n gysylltiedig â phob un o'r uchod, ac yn rhoi blaenoriaeth iddynt ar sail ein cynnydd yn y flwyddyn gyntaf.

Yn ystod trydedd flwyddyn y cynllun, byddwn yn ymdrin ag atgyfnerthu gwaith y Bwrdd mewn perthynas â phob un o'r blaenoriaethau yr ydym wedi'u nodi ac asesu effeithiolrwydd yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni yn y ddwy flynedd flaenorol.

Bydd gan yr holl flaenoriaethau hyn agweddau penodol sy'n canolbwyntio ar wella canlyniadau i bobl sy'n dioddef neu'n wynebu risg o ddioddef camdriniaeth, esgeuluso a chamfanteisio. Byddwn hefyd yn cymryd i ystyriaeth y rheiny y mae arnynt angen cynllun gofal a chymorth. Rydym hefyd wedi cynnwys cydgysylltu gwasanaethau ataliol gan y cydnabuwyd bod cyfrifoldeb ar y Bwrdd i ddyllanwadu ar bartneriaethau eraill a sicrhau bod diogelu'n ganolog i'w busnes.

Bydd y blaenoriaethau hyn hefyd yn canolbwyntio ar sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol ar waith yn yr asiantaethau sy'n aelodau ar draws y rhanbarth a bod y Bwrdd yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol. Bydd hyn yn ei dro yn darparu'r sail angenrheidiol i wella canlyniadau i ddinasyddion ar draws ein rhanbarth.

Cydnabyddwn ei bod yn bwysig datblygu fframwaith rheoli perfformiad a fydd yn caniatáu inni feincnodi perfformiad yr asiantaethau sy'n aelodau ac i ddechrau deall ble mae angen inni edrych am welliannau. Bydd y newidiadau i strwythur ein his-grwpiau yn gwella llywodraethu a bydd gwaith adrodd ffurfiol yn y strwythur yn sicrhau proses cyfathrebu ddwyffordd rhwng ein Bwrdd strategol a'i is-grwpiau.

Am y flwyddyn gyntaf byddwn yn canolbwyntio ar ganfod gwybodaeth sylfaenol am bob un o'r blaenoriaethau ac yn yr ail a'r drydedd flwyddyn byddwn mewn sefyllfa well i dargedu meysydd yr ydym eisiau eu gwella. Bydd hyn yn ein helpu i fireinio ein cynllun gweithredu er mwyn sicrhau bod yr adnoddau sydd gennym yn cael eu defnyddio mor effeithiol ag sy'n bosibl.

Er mwyn gwneud hyn mae'r Bwrdd wedi cytuno mai ei fusnes craidd yw'r canlynol:

- **Adolygiadau Ymarfer Oedolion**
- **Cysylltiadau gyda grwpiau a phartneriaethau strategol eraill**

- **Cytuno ar fframwaith Rheoli Perfformiad / Sicrwydd Ansawdd a'i roi ar waith**
- **Datblygu a dosbarthu polisiau a gweithdrefnau**
- **Hyfforddiant**
- **Datblygu Rhwydweithiau Diogelu Lleol**
- **Rhoi deddfwriaeth newydd ar waith**
- **Parhau i ymgysylltu â dinasyddion ar draws Gwent**

Dros y 3 blynedd nesaf mae'r Bwrdd eisiau parhau i wella arweinyddiaeth, cydgysylltu ac effeithiolrwydd ymarfer amlasiantaethol diogelu oedolion. Mae ymchwil, adolygiadau achosion difrifol blaenorol ac adolygiadau ymarfer oedolion wedi dangos bod systemau diogelu cadarn ac arferion rheng flaen effeithiol yn gwella canlyniadau i bobl.

Mae cyflawni ein pwrpas yn galw am weithio effeithiol ar bob lefel, o'r rheng flaen weithredol i'r Bwrdd strategol rhanbarthol. Yn hytrach na gweld hyn mewn ffordd hierarchaidd draddodiadol fel Bwrdd Diogelu sy'n cael ei gefnogi gan weithgarwch lleol a rhanbarthol, mae angen inni ei chydabod fel system gyfan.

O'r herwydd bydd rhyngweithio di-baid rhwng yr elfennau lleol a rhanbarthol ac ni fyddwn ond cystal ag effeithiolrwydd pob rhan a'r cyfathrebu rhwng y rhain. Mae arweinyddiaeth a llywodraethiant rhanbarthol effeithiol yn hanfodol, ac felly hefyd cydweithio da ar lefel leol.

Negeseuon oddi wrth weithwyr proffesiynol

Buom yn siarad â grwpiau o weithwyr proffesiynol mewn cynhadledd a gynhaliwyd yn sgil canfyddiadau Operation Jasmine. Rhoesant inni wybodaeth sydd wedi llywio ein blaenoriaethau yn y cynllun hwn. Roedd eu negeseuon yn glir iawn ac yn sicrhau y gwyddem:

- Eu bod eisiau inni ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar i atal camdriniaeth rhag digwydd neu waethygu
- Dylai fod llwybrau a chanllawiau clir a chytunedig a ddylai gael eu monitro gan y Bwrdd
- Mae angen inni sicrhau y caiff trothwyon ar gyfer safonau gofal ac ymyriadau POVA eu cymhwyso mewn ffordd gyson
- Dylai fod gwell cyfathrebu rhwng asiantaethau a gwell dealltwriaeth o rolau ei gilydd
- Gofynasant am well protocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau
- Nodasant y dylid gwella cydweithredu rhwng y sectorau gwirfoddol a statudol a gwasanaethau wedi'u comisiynu
- Dylid gwella ymwybyddiaeth o'r Bwrdd a gwaith yr is-grwpiau ymysg gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd
- Roedd angen codi ymwybyddiaeth o eiriolaeth a chynyddu nifer y bobl sy'n manteisio arni
- Mae'n bwysig rhannu'r negeseuon a'r gwersi sydd wedi'u dysgu o'r gwaith diogelu a wneir ar draws y rhanbarth gyda staff a gwirfoddolwyr y rheng flaen


Rhagor o waith partneriaethol a chydweithredol

Dros y blynyddoedd i ddod bydd rhagor o gydweithredu hefyd rhwng Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan a Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru, a bydd nifer o'r is-grwpiau'n cydweithio'n agosach ar draws y ddau Fwrdd, a fydd yn caniatáu dulliau cyson ar draws y rhanbarth. Bydd yr is-grwpiau newydd yn eu tro yn adrodd yn ôl yn ffurfiol i bob un o'r Byrddau Diogelu statudol. Mae'r strwythur hwn wedi cymryd busnes creiddiol y ddau Fwrdd i ystyriaeth ac mae'r gwaith o ffurfio'r is-grwpiau yn adlewyrchu hyn. Mae'r Bwrdd Diogelu Oedolion hefyd wedi cydnabod yr angen i sicrhau cyfathrebu da â'r Bwrdd partneriaeth strategol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

gan fod y math hwn o gamdriniaeth yn cael sylw mawr yn y blaenoriaethau strategol a nodwyd gan y Bwrdd Diogelu Oedolion.

Ceir diagram o'r Bwrdd a'i is-grwpiau isod:

Strwythur Diogelu Strategol Rhanbarthol



Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan Blaenoriaethau Strategol ar gyfer 2017-2020

Blaenoriaeth Strategol 1 – Targedu ymyriadau at oedolion sy'n wynebu risg o fathau penodol o gamdriniaeth

Braslun o'r angen: Mae nifer o wahanol fathau o gamdriniaeth yn cael effaith niweidiol ar lawer o oedolion. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan wedi dysgu bod ymddygiad pobl eraill yn achosi ofn, pryder neu niwed i lawer o oedolion. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys esgeulustod, camdriniaeth ddomestig, camdriniaeth ariannol, camdriniaeth gorfforol, camdriniaeth emosiynol ac weithiau camdriniaeth rywiol. Mae data cyfredol, archwiliadau achosion ac adolygiadau achosion yn dangos bod y problemau hyn i'w cael mewn nifer fawr o achosion lle mae oedolion wedi cael eu hanafu'n ddifrifol neu wedi marw o ganlyniad i gamdriniaeth a/neu esgeulustod. Mae canlyniadau emosiynol a chorfforol i gamdriniaeth ac esgeulustod, a all fod yn ddangosyddion trallod a niwed mewn oedolion. Felly, bwriad y Bwrdd yw rhoi blaenoriaeth i fathau penodol o gamdriniaeth dros y tair blynedd nesaf, gan addasu ei flaenoriaethau yn unol â'r dystiolaeth leol a chan ddangos gwelliannau cyson yn y maes diogelu allweddol hwn.

O dan y Flaenoriaeth Strategol hon, ym Mwyddyn 1 byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Esgeulustod – Canfod a deall patrwm Esgeulustod yn y rhanbarth er mwyn datblygu strategaethau i atal rhagor o ddigwyddiadau
- Camdriniaeth ariannol - Gweithio mewn modd amlasiantaethol i godi ymwybyddiaeth o'r math hwn o gamdriniaeth a rhannu enghreifftiau er mwyn lleihau'r risg i'r eithaf

Canolbwynt y Flaenoriaeth	Beth ydym ni eisiau ei gyflawni?	Beth yw'r dangosyddion canlyniadau?	Erbyn pryd	Is-grŵp Arweiniol
Esgeulustod	Set ddata ranbarthol gynhwysfawr i greu llinell sylfaen o achosion o esgeulustod mae timau amddiffyn oedolion wedi ymdrin â hwy	Caiff data esgeulustod o bob ardal awdurdod lleol eu casglu i ganfod mynychder achosion yn y rhanbarth	Medi 2017	Grŵp Sicrwydd Ansawdd a Pherfformiad
Esgeulustod	Datblygu set o ganllawiau cynhwysfawr i ymarferwyr i'w galluogi i adnabod a mynd i'r afael â materion sy'n	Caiff y canllawiau eu cynhyrchu, eu cymeradwyo gan y Bwrdd a'u dosbarthu ymysg gweithwyr proffesiynol	Mawrth 2018	Grŵp Protocolau a Gweithdrefnau Grŵp Dysgu a

	ymwneud ag esgeuluso oedolion sydd ag angen gofal a chymorth, yn y gymuned ac mewn lleoliadau gofal	Dylai'r wybodaeth a geir yn y canllawiau ar esgeulustod gael ei chynnwys yn y pecynnau hyfforddiant sydd ar gael i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gydag oedolion	Medi 2018	Datblygu
Esgeulustod	Codi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd o achosion o esgeulustod sydd o bosibl yn digwydd yn y gymuned neu mewn lleoliadau gofal ac annog rhoi gwybod am bryderon	Ymgrych i godi ymwybyddiaeth o'r peryglon sy'n gysylltiedig ag esgeuluso oedolion, gan gynnwys gwybodaeth am sut a ble i roi gwybod am bryderon	Mawrth 2018	Grŵp Ymgysylltu a Chyfathrebu
Camdriniaeth ariannol	Cydweithio'n agos â chydweithwyr yn Heddlu Gwent a thimau amddiffyn oedolion i ganfod faint o gamdriniaeth ariannol wedi'i chofnodi sydd ar draws y rhanbarth	Tynnu sylw gweithwyr proffesiynol at lefelau camdriniaeth ariannol	Medi 2017	Grŵp Sicrwydd Ansawdd a Pherfformiad
Camdriniaeth ariannol	Penderfynu ar amrywiaeth o gamau i gael eu cymryd i fynd i'r afael â chamdriniaeth ariannol yn y gymuned a helpu unigolion i aros yn ddiogel	Codi ymwybyddiaeth o wahanol enghreifftiau o gamdriniaeth ariannol ymysg gweithwyr proffesiynol a dinasyddion ar draws Gwent. Cynorthwyo unigolion i fynd i'r afael â'r math hwn o gamdriniaeth gan ofalwyr a pherthnasau	Mawrth 2018	Grŵp Sicrwydd Ansawdd a Pherfformiad Grŵp Ymgysylltu a Chyfathrebu
Camdriniaeth ariannol	Y Grŵp Cynllunio Busnes i ganfod enghreifftiau o arferion gorau wrth ymdrin â chamdriniaeth ariannol ar draws y rhanbarth ac i gydweithio â'r Rhwydweithiau Diogelu i'w dosbarthu i ymarferwyr y rheng flaen	Topigau gweithdy camdriniaeth ariannol i gael eu cyflwyno i'r Bwrdd ac i'r Rhwydweithiau Diogelu lleol	Mawrth 2018	Rhwydweithiau Diogelu Lleol y Bwrdd

Blaenoriaeth Strategol 2 – Gwella Ansawdd Gofal

Braslun o'r angen: Ansawdd y gofal a ddarperir i'n grwpiau mwyaf anghenus sydd wedi cael y brif flaenoriaeth ers amser maith gan yr amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaeth amlasiantaethol ar draws Gwent. Yn y blynyddoedd diwethaf mae Operation Jasmine a'r adroddiad dilynol gan Dr Flynn "Chwilio am Atebolrwydd" wedi bod yn arbennig o bwysig ar draws y rhanbarth. Yn y tair blynedd ddiwethaf cafwyd llawer o weithgarwch gan gynnwys archwiliadau, codi ymwybyddiaeth a gwaith 'mapio a chanfod bylchau' er mwyn meincnodi a gwella canlyniadau i oedolion mewn lleoliadau preswyl. Fodd bynnag, erbyn hyn cydnabyddir cynnydd posibl yn nifer yr oedolion a allai wynebu risg mewn lleoliadau gofal cartref hefyd. Gall fod yn anodd mynd i'r afael â'r maes gwaith hwn ond mae'r Bwrdd wedi cytuno ar y blaenoriaethau strategol canlynol er mwyn dechrau bwrw ymlaen â'r agenda hon ynghyd â'r blaenoriaethau presennol mewn lleoliadau preswyl. Y nod yw y bydd gwaith yn dechrau ar bob maes blaenoriaethol ac wrth i eitemau gael eu cwblhau neu os bydd y pwyslais yn newid yn y maes blaenoriaethol hwn, bydd y cynllun yn cymryd hyn i ystyriaeth yn y flwyddyn nesaf.

O dan y Flaenoriaeth Strategol hon, ym Mlwyddyn 1 byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol

- Cytuno ar ddull trwy ymyriadau amlasiantaethol sy'n darparu cysondeb wrth ymdrin â phryderon o ran Diogelu Oedolion
- Cytuno ar brotocol sy'n ymdrin â rheoli niwed gwasgu ym mhob lleoliad gofal
- Codi safon gwasanaethau eiriolaeth oedolion, a chynyddu nifer y bobl sy'n manteisio arnynt, ar draws y rhanbarth

Canolbwynt y Flaenoriaeth	Beth ydym ni eisiau ei gyflawni?	Beth yw'r dangosyddion canlyniadau?	Erbyn pryd	Is-grŵp Arweiniol
Lefel Ymyrraeth Gyson	Sefydlu llinell sylfaen ar gyfer ymyrraeth diogelu ar draws y rhanbarth mewn gofal preswyl a gofal cartref	Casglu gwybodaeth a data am bryderon o ran amddiffyn oedolion er mwyn sefydlu llinell sylfaen	Medi 2017	Grŵp Sicrwydd Ansawdd a Pherfformiad
Lefel Ymyrraeth Gyson	Datblygu dogfen ganllaw ar draws pob ardal Awdurdod Lleol er mwyn sicrhau dull cyson wrth gyflawni ymyriadau	Caiff canllawiau i weithwyr proffesiynol eu cynhyrchu, sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch pryd mae pryderon o ran diogelu yn galw am ymyriad	Rhagfyr 2017	Grŵp Protocolau a Gweithdrefnau
Lefel Ymyrraeth Gyson	Caiff y ddogfen ganllaw ei defnyddio ar draws y rhanbarth fel rhan o ymarfer pob dydd	Caiff y ddogfen ganllaw ei chytuno gan y Bwrdd a'i dosbarthu i weithwyr proffesiynol Caiff gwybodaeth am lefelau ymyrraeth ei chynnwys yn holl fodiwlau hyfforddiant cytunedig y Bwrdd	Mawrth 2018	Rhwydweithiau Diogelu'r Bwrdd Grŵp Dysgu a Datblygu

Lefelau Ymyrraeth Cyson	Darperir hyfforddiant wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd i ymarferwyr sy'n gweithio gydag oedolion mewn gofal preswyl, cartref a chymunedol ar draws y rhanbarth	Caiff y modiwlau hyfforddiant presennol sydd wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd eu hadolygu a'u diwygio i gynnwys y canllawiau ar ymyrraeth gyson	Mawrth 2018	Grŵp Dysgu a Datblygu
Lefelau Ymyrraeth Cyson	Caiff modiwlau hyfforddiant sydd wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd eu darparu mewn ffordd gydgyssylltiedig i ddarparwyr gofal	Caiff y model 'grŵp cyflawni' a ddefnyddir ym maes diogelu plant ei fabwysiadu i ddarparu hyfforddiant cyffredinol ar ddiogelu i ddarparwyr gofal	Mawrth 2018	Grŵp Dysgu a Datblygu
Rheoli Niwed Gwasgu	Datblygu dogfen weithio, wedi'i chytuno ar y cyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol y pum awdurdod lleol, i ddarparu llwybr clir i ymdrin â rheoli gwasgu mewn lleoliadau gofal preswyl a nyrsio	Grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu gyda chynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd a phob ardal Awdurdod Lleol. Y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod y broses yn cadw uchafiaeth i'r Bwrdd Iechyd yn y llwybr cytunedig	Mawrth 2018	Grŵp Cynllunio Busnes Grŵp Protocolau a Gweithdrefnau
Rheoli Niwed Gwasgu	Caiff y ddogfen weithio ei dosbarthu i weithwyr proffesiynol a darparwyr gofal er mwyn sicrhau y'i defnyddir yn gyson ar draws pob sector	Caiff y ddogfen weithio ei chytuno gan y Bwrdd a'i dosbarthu'n helaeth Caiff gwybodaeth am y llwybr ei chynnwys yn holl fodiwlau hyfforddiant cytunedig y Bwrdd	Tachwedd 2018	Rhwydweithiau Diogelu Lleol y Bwrdd Grŵp Dysgu a Datblygu
Eiriolaeth	Defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd ynghynt (2016) a chasglu data perthnasol newydd i sefydlu meincnod o nifer bresennol y bobl sy'n manteisio ar eiriolaeth	Bydd y 'meincnod' yn darparu gwybodaeth am nifer y bobl sy'n defnyddio eiriolaeth ar draws y rhanbarth ac yn dangos y bylchau yn y ddarpariaeth	Medi 2017	Grŵp Sicrwydd Ansawdd a Pherfformiad
Eiriolaeth	Codi ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol am hawl unigolion i gael eiriolaeth o bob math	Mae'r gweithlu ar draws yr holl sectorau gofal yn cynnig eiriolaeth, yn enwedig pan ganfyddir problemau o ran diogelu	Tachwedd 2017	Grŵp Cynllunio Busnes Rhwydweithiau Diogelu Lleol

Eiriolaeth	Cynhyrchu amrywiaeth o offer i godi ymwybyddiaeth o eiriolaeth. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl gwreiddio cynnig eiriolaeth mewn ymarfer	Gellir dosbarthu'r negeseuon hyn trwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys briffiadau i'r staff, adnoddau ar y we, clipiau cyfryngol, deunyddiau printiedig a fforymau ymarferwyr	Ionawr 2018	Ymgysylltu a Chyfathrebu Rhwydweithiau Diogelu Lleol
Eiriolaeth	Adolygu nifer y bobl sy'n manteisio ar eiriolaeth ar draws y rhanbarth dros y flwyddyn flaenorol er mwyn canfod a yw nifer y bobl sy'n manteisio ar eiriolaeth wedi cynyddu	Archwilio gwahanol ddarpariaethau gofal o ran y cynnig eiriolaeth i ganfod a yw'r defnydd o'r gwasanaeth wedi cynyddu	Mawrth 2018 ac yn barhaus	Grŵp Sicrwydd Ansawdd a Pherfformiad

Blaenoriaeth Strategol 3 – Sicrhau effeithiolrwydd parhaus ymarfer diogelu yn ystod cyfnod gweithredu a phontio i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Braslun o'r angen: Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn pwysleisio pwysigrwydd gwasanaethau ataliol ac yn gwahaniaethu rhwng oedolion y mae arnynt angen eu hamddiffyn a rhai y mae arnynt angen cynlluniau gofal a chymorth. Er mwyn sicrhau bod partneriaethau strategol a sefydliadau lleol eraill yn cadw diogelu wrth wraidd eu busnes, heb ystyried yr angen am wasanaethau amddiffyn oedolion, mae angen i'r Bwrdd ddylanwadu ar nifer fawr o fforymau ar lefel strategol. Mae cysylltiadau cadarn rhwng partneriaethau strategol yn hanfodol i lwyddiant y flaenoriaeth hon.

O dan y Flaenoriaeth Strategol hon, ym Mwyddyn 1 byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Parhau â'r cysylltiadau gyda'r tîm trawsnewid rhanbarthol a phartneriaethau rhanbarthol a grwpiau strategol lleol eraill;
- Monitro'r gwaith o ddarparu hyfforddiant, codi ymwybyddiaeth a dosbarthu gwybodaeth i sefydliadau ar draws y rhanbarth.

Canolbwynt y Flaenoriaeth	Beth ydym ni eisiau ei gyflawni?	Beth yw'r dangosyddion canlyniadau?	Erbyn pryd	Is-grŵp Arweiniol
Meithrin cysylltiadau cadarn	Mae gwaith y Bwrdd yn cael ei drafod yn rheolaidd yng nghyfarfodydd partneriaethau lleol a rhanbarthol.	Mae'r aelodau'n sicrhau y caiff buddiannau'r Bwrdd eu cynrychioli yn fforymau partneriaethau eraill. Dangos bod eitemau yn ymwneud â diogelu'n cael eu gosod ar agendâu yn rheolaidd.	Tachwedd 2017	Y Bwrdd ac aelodau'r Is-grwpiau
Meithrin cysylltiadau cadarn	Y Bwrdd i sicrhau bod y tîm trawsnewid yn meithrin cysylltiadau ar draws partneriaethau rhanbarthol ac yn cynnwys Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru mewn unrhyw benderfyniadau strategol rhanbarthol	Y tîm trawsnewid i roi diweddariadau rheolaidd i'r Bwrdd ar y cynnydd o ran gweithredu'r ddeddfwriaeth	Mawrth 2018	Y Tîm Trawsnewid a'r Bwrdd
Bwrdd Diogelu Cenedlaethol	Cysylltiadau cadarn rhwng aelodau'r Bwrdd a chynrychiolydd enwebedig y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol. Sicrhau y caiff unrhyw flaenoriaethau a phryderon lleol neu ranbarthol sydd gan y Bwrdd eu codi yn y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol	Mae cynrychiolydd cyswllt y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn dod i holl gyfarfodydd y Bwrdd a fforymau rhanbarthol eraill ac yn darparu sianel rhwng y Bwrdd a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol	Mawrth 2018 ac yn barhaus	Y Bwrdd a chynrychiolydd cyswllt y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Codi Ymwybyddiaeth	Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod y wefan ac unrhyw gylchlythyrau sy'n cael eu cynhyrchu'n darparu adnodd cynhwysfawr am ddiogelu yn y rhanbarth	Y wefan i gadw hyperddolenni i wasanaethau ataliol ym mhob ardal awdurdod lleol. Y cylchlythyr i gynnwys cyfeiriadau at amrywiaeth fawr o wasanaethau ataliol sydd ar gael	Hydref 2018	Grŵp Ymgysylltu a Chyfathrebu
Gweithdrefnau cyfredol	Y Bwrdd i sicrhau, cyn gynted ag y caiff y Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol eu hadolygu a'u cytuno, y cânt eu dosbarthu ymysg gweithwyr proffesiynol	Mae'r fersiwn wedi'i diweddarau o'r Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol wedi'u gwreiddio mewn ymarfer ar draws y rhanbarth	Mawrth 2018	Grŵp Protocolau a Gweithdrefnau
Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	Sicrhau cynrychiolaeth i'r Bwrdd ar y Bwrdd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'i is-grwpiau.	Sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn gweithredu fel hyrwyddwyr diogelu a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol mewn fforymau rhanbarthol a lleol.	Mawrth 2018 ac yn barhaus	Y Bwrdd

Blaenoriaeth Strategol 4 – Cynnal Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Oedolion Effeithiol

Braslun o'r angen: Gan Fwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan mae'r rôl strategol arweiniol wrth sicrhau y caiff oedolion yn y rhanbarth eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, esgeulustod a phob math o gamwahaniaethu a'u bod yn byw mewn amgylchedd sy'n hybu eu llesiant ac yn eu cadw'n ddiogel. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhagnodi'r swyddogaethau allweddol i gynnal Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Oedolion effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys swyddogaeth bwysig adolygu effeithiolrwydd y camau a gymerir gan y partneriaid hynny sydd â chyfrifoldebau diogelu i weithredu amcanion y Bwrdd a hefyd adolygu perfformiad y Bwrdd a'i bartneriaid wrth gyflawni ei amcanion o ran diogelu ac amddiffyn oedolion sy'n wynebu risg. Felly, mae'n hollbwysig i'r Bwrdd gyflawni ei rwymedigaethau statudol, o ran sicrhau bod diogelu'n ganolog i agenda ataliol y bartneriaeth ranbarthol, ei bod yn darparu arweiniad cadarn ac yn dal asiantaethau yn atebol am ddiogelu oedolion.

O dan y Flaenoriaeth Strategol hon, ym Mlwyddyn 1 byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol

- Cwblhau archwiliad diogelu Adran 135 gan yr asiantaethau sy'n rhan o'r Bwrdd i adlewyrchu'r ffordd mae'r Bwrdd yn diogelu ei ddinasyddion
- Hunan-asesiad o berfformiad y Bwrdd er mwyn sicrhau bod diogelu'n ganolog i bopeth a wnawn
- Codi proffil y Bwrdd er mwyn hyrwyddo'r neges mai 'cyfrifoldeb pawb yw diogelu'

Canolbwynt y Flaenoriaeth	Beth ydym ni eisiau ei gyflawni?	Beth yw'r dangosyddion canlyniadau?	Erbyn pryd	Is-grŵp Arweiniol
Gwella Cyfathrebu	Proses cyfathrebu ddwyffordd rhwng y Bwrdd a rhwydweithiau diogelu lleol.	Dosbarthu gwybodaeth ddwyffordd yn rheolaidd	Tachwedd 2017	Aelodau'r Bwrdd Rhwydweithiau Diogelu Lleol
Hunan-asesiad	Bydd y Bwrdd yn asesu'n fanwl gywir feysydd cryf a meysydd i'w datblygu i bartneriaid y Bwrdd a'r cyrff sy'n cael eu cynrychioli.	Cwblhau archwiliad diogelu Adran 135 o holl bartneriaid y Bwrdd a'r cyrff sy'n cael eu cynrychioli. Defnyddio'r adborth o'r archwiliad Adran 135 i lywio gweithrediad diwrnod hunan-asesu.	Mawrth 2018	Aelodau'r Bwrdd Grŵp Cynllunio Busnes
Hunan-asesiad	Bydd y Bwrdd yn asesu'n fanwl gywir ei berfformiad wrth gyflawni ei amcanion.	Cwblhau archwiliad hunan-asesu gyda phartneriaid y Bwrdd.	Mawrth 2018	Aelodau'r Bwrdd Grŵp Cynllunio Busnes

Codi proffil y Bwrdd	Meithrin cysylltiadau cadarn â chynrychiolydd enwebedig De Ddwyrain Cymru ar y Bwrdd Diogelu Cenedlaethol	Caiff barn a buddiannau'r Bwrdd eu cynrychioli'n gryf ar lefel genedlaethol.	Mawrth 2018	Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd
Codi proffil y Bwrdd	Caiff y Cynlluniau Blynyddol strategol a'r Adroddiadau Blynyddol sy'n eiddo i'r Bwrdd eu cyflwyno'n rheolaidd i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Lleol ac i Fwrdd Partneriaeth Strategol De Ddwyrain Cymru.	Mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael cyflwyniadau gan y Bwrdd fel mater o drefn ac mae ganddynt ymwybyddiaeth gref o flaenoriaethau allweddol y Bwrdd i'w cynnwys yn eu hagenda leol Mae diogelu'n cael ei wreiddio mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforaethol.	Mawrth 2018	Cadeirydd ac Is-gadeirydd a Rheolwr Busnes y Bwrdd
Codi proffil y Bwrdd	Caiff y Bwrdd ei gynrychioli ar unrhyw grwpiau diogelu Cymru gyfan.	Caiff barn a buddiannau'r Bwrdd eu cynrychioli'n gryf trwy fynd i gyfarfodydd Grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau Cymru Gyfan, Grŵp Rheolwyr Busnes Cymru Gyfan a Grŵp Cydgysylltwyr Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.	Mawrth 2018	Aelodau'r Bwrdd a'i Is-grwpiau
Rheoli Perfformiad	Mae'r Grŵp Sicrwydd Ansawdd yn gweithio ar gynhyrchu fframwaith perfformiad amlasiantaethol, sy'n galluogi'r aelodau i asesu effeithiolrwydd ymarfer diogelu ar draws y rhanbarth	Cytunir ar yr elfennau unigol sy'n ffurfio fframwaith perfformiad Mae asiantaethau'n dechrau darparu data a gwybodaeth ansoddol i'r grŵp Caiff rhaglen archwilio flynyddol ei chytuno a'i rhoi ar waith Ym mlynnyddoedd y dyfodol caiff y wybodaeth sydd wedi'i chasglu ei dadansoddi a'i chyflwyno i'r Bwrdd	Rhagfyr 2017	Grŵp Sicrwydd Ansawdd a Pherfformiad